# Arweinydd Datblygu iSeries

## Cyflog: £60,348 - £62,766 y flwyddyn (Gradd 13)

## Math o gontract: Llawn amser (36.5 awr yr wythnos), Parhaol

**Yr her**

Yn CBAC, rydym yn cyfrannu at ein cymunedau addysg drwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, fel y gall ein dysgwyr gael y cyfle i gyrraedd eu potensial yn llawn. Dyma gyfle gwych felly i fod yn rhan o gorff sy'n annog ac yn gwella meddyliau'r dyfodol.

**Y rôl**

Mae'r Arweinydd Datblygu iSeries yn allweddol i sicrhau bod ein systemau sy'n gysylltiedig ag arholiadau yn cael eu cynnal yn ddibynadwy ar gyfer amrywiaeth o randdeiliaid allanol a mewnol. Bydd yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth i dîm o 5 datblygwr ar wahanol gamau yn eu gyrfa ac yn gweithredu fel pwynt cyfeirio ar draws y busnes mewn perthynas ag ieithoedd rhaglennu COBOL a RPG.

Bydd yn ymwneud yn agos â dylunio, gweithredu ac integreiddio systemau busnes, gan osod cyfeiriad technegol yr hyn sy'n cael ei gyflwyno, ac yna cymhwyso egwyddorion a methodolegau peirianneg meddalwedd at agweddau technegol ar ddylunio, datblygu, profi a chynnal rhaglenni a gwasanaethau.

**Amdanoch chi**

Bydd gan ymgeiswyr brofiad sylweddol o ddatblygu systemau mewn iaith gyfrifiadurol fel RPG, COBOL, Java, neu .net, yn ddelfrydol gyda rhywfaint o ddealltwriaeth o amgylchedd gweithredu AS400. Bydd yn dda am rwydweithio ac yn gallu cyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn deall gofynion y system a chynhyrchu manylebau datblygu sy'n lliniaru risgiau ac yn cefnogi'r gwaith integreiddio amrywiol sy'n angenrheidiol. Byddai profiad blaenorol o reoli tîm a darparu cefnogaeth dechnegol a bugeiliol i eraill hefyd yn fanteisiol.

**Buddion**

Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol), gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn cystadleuol a nifer o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd. Gall dilyn gyrfa gyda CBAC fod yn hynod o werthfawr a byddwch chi'n cael eich annog i ddilyn y cyfleoedd gwych sydd ar gael i ddatblygu eich sgiliau, yn broffesiynol ac yn bersonol.

Rydyn ni'n gweithredu model gweithio hybrid, sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng gweithio yn swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, yn dibynnu ar anghenion y busnes. Gwahoddir ceisiadau felly gan unigolion ar draws y DU ond bydd gofyn gweithio'n rheolaidd o'n swyddfeydd yng Nghaerdydd. Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ond gwerthfawrogir y parodrwydd i ddysgu'r iaith bob amser.

Os hoffech wybod mwy am y rôl hon, neu am weithio yn CBAC, peidiwch ag oedi cyn cysylltu ag aelod o'n tîm Adnoddau Dynol (ad@cbac.co.uk). Byddan nhw'n fwy na pharod i helpu.

**Ewch i'n gwefan i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a ffurflen gais.**

## Dyddiad cau: 23:59, dydd Sul 11 Ionawr 2026

**Rhagwelir cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb, ar dydd Llun 26 Ionawr 2026**

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Arweinydd Datblygu iSeries |
| **Adran:** | Digidol a Thrawsnewid |
| **Isadran:** | Gwasanaethau Technegol |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Cynorthwyol TG |
| **Gradd:** | 13 |
| **Lleoliad:** | Rhodfa'r Gorllewin |

## Prif bwrpas y Swydd:

Bydd Arweinydd Datblygu iSeries yn arwain tîm o weithwyr datblygu proffesiynol sy'n gyfrifol am ddylunio, gweithredu a chynnal datrysiadau data prosesu arholiadau ar gyfer nifer o gynhyrchion a gwasanaethau a ddefnyddir gan randdeiliaid mewnol ac allanol.

Bydd deiliad y swydd yn cydweithio â rhanddeiliaid eraill gan gynnwys rheolwyr cynhyrchion, datblygwyr, ymchwil, deallusrwydd busnes a marchnata, i sicrhau bod y tîm data yn darparu datrysiadau arloesol o ansawdd uchel sy'n cyflawni nodau'r busnes a disgwyliadau defnyddwyr.

Fel rhan o'r Grŵp Datblygu TG, bydd deiliad y swydd yn gweithio ar y cyd â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Datrysiadau, y tîm TG ehangach ac ar draws y corff, i sicrhau bod projectau a chytundebau ar lefel gwasanaeth yn cael eu darparu'n llwyddiannus. Elfen allweddol o'r rôl fydd darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd project i arweinydd y project, gan sicrhau bod nodau'r project yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni priodol a bod llwyth gwaith yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol o fewn y tîm.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

**Cynnal a Datblygu iSeries**

- Arwain y rhaglen cynnal a moderneiddio ar gyfer cydrannau a gwasanaethau sy'n seiliedig ar iSeries.
- Arwain y gwaith o gynnal a gwella'r feddalwedd iSeries bresennol gan ddefnyddio ieithoedd rhaglennu presennol (COBOL ac RPG yn bennaf ond yn gwneud defnydd o CL a DDS) a sicrhau ar yr un pryd nad yw newidiadau meddalwedd yn effeithio'n faterol ar ystyriaethau gweithredol.
- Nodi projectau datblygu ar gyfer gwelliannau i iSeries a phrosesau rhaglenni newydd, adrodd ar brojectau datblygu tymor byr, canolig a thymor hir, tynnu sylw at risgiau a darparu cynlluniau wrth gefn.
- Sicrhau bod datblygu'r system yn cydymffurfio â safonau a fframweithiau datblygu.
- Rheoli a sicrhau bod darnau data rheoleiddiol a llwythi gwaith prosesu arholiadau yn cael eu cynhyrchu ar amser ac yn gywir yn unol â manylebau.

**Dylunio a Darparu Datrysiadau**

- Gweithredu fel prif ddatblygwr system RPG / COBOL.

- Bod yn arweinydd dylunio ar gyfer gwaith integreiddio systemau arholiad rhwng CBAC a systemau partneriaid allanol. Gwerthuso meddalwedd a gynhyrchwyd yn allanol i sicrhau bod egwyddorion dylunio wedi'u cynnal, a bod llifoedd data yn gywir.
- Dylunio a gweithredu pecynnau cod, rhaglenni a systemau sy'n seiliedig ar ofynion busnes a TG, a dyluniadau pensaernïol gan ddefnyddio methodolegau, offer, ieithoedd a fformatau priodol.
- Darparu arbenigedd mewn dadansoddi, cefnogi a gwella systemau cyfresi arholiadau, gan gynghori'r Sywddfa Rheoli Projectau ar gynnydd.
- Darparu cyngor technegol ar yr isadeiledd y mae ei angen i gynnal rhaglenni
- Dylunio rhyngwynebau defnyddwyr o fewn y systemau arholiadau; gan gynnwys sgriniau ochr flaen a chysylltau i brosesau ochr gefn ac argymell ieithoedd rhaglennu i'w defnyddio gan raglenwyr.
- Sicrhau bod profion a hyfforddiant defnyddwyr priodol yn digwydd.
- Sicrhau bod yr holl systemau meddalwedd a data yn cyfateb i ganllawiau pensaernïol, gan ddilyn y safonau pensaernïol, rhaglennu a dogfennu a bennir yn y Grwp Datblygu TG.
- Llunio dogfennaeth glir a threfnus i gefnogi dyluniadau/datrysiadau lle bo angen, gan sicrhau eu bod yn cadw at safonau rheoli fersiynau a rheoli tasgau.
- Cydweithio â staff perthnasol yn fewnol ac yn allanol i benderfynu ar ofynion TG, gan ystyried yr effaith ar unrhyw newidiadau a dichonoldeb datrysiadau technegol amgen. Darparu manylebau rhaglennu amlinellol ar gyfer rhaglenwyr/datblygwyr a sefydlu manylebau system ffurfiol ar ôl pennu'r gofynion.

**Rheoli Projectau**

- Cyfrannu at brojectau strategol a datblygiadau systemau TG, gan sicrhau bod dogfennaeth projectau a chofrestri risg priodol ar waith.
- Gan gydweithio â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Datrysiadau a'r tîm TG ehangach, casglu a diffinio gofynion defnyddwyr ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau mewnol ac allanol.
- Yn rhan o'r tîm Datblygu TG, gweithio i gwrdd â therfynau amser projectau a darparu cytundebau ar lefel gwasanaeth yn llwyddiannus, gan sicrhau bod llwythi gwaith wedi'u blaenoriaethu'n briodol yn unol â gofynion y busnes.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd unrhyw broject i arweinydd y project, gan sicrhau bod terfynau amser projectau wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni priodol.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

- Cysylltu â chydweithwyr mewnol ym mhob rhan o'r busnes er mwyn gallu dysgu, cydweithio a gwella, gan gynnig cefnogaeth a datrysiadau yn ôl yr angen.
- Sefydlu sianeli cyfathrebu effeithiol â defnyddwyr drwy gydol y broses ddylunio a gweithredu, gan gyfleu cysyniadau technegol cymhleth yn glir a chryno.
- Cydweithio'n rhan o dîm i ddeall cronfeydd codau presennol a chynhyrchu cod sydd wedi'i brofi, yn ddarllenadwy ac wedi'i adeiladu gan ystyried arferion gorau'r diwydiant.

**Rheolaeth llinell**

- Arwain a rheoli'r tîm iSeries, gan gynnwys recriwtio a dethol perthnasol, dyrannu llwythi gwaith a darparu gofal bugeiliol ac adborth.
- Rheoli a mentora tîm technegol, gan gynnig arweiniad, cefnogaeth a chyfleoedd datblygu proffesiynol.
- Bod yn gyfrifol am reoli perfformiad aelodau'r tîm, gan gynnwys rheoli cyfnod prawf /ARhP, gosod amcanion a chefnogi’r gwaith o’u cyflwyno.
- Ysbrydoli a chefnogi cyfleoedd gwelliant parhaus sy'n berthnasol i'r adran.

**Arall**

- Rhannu cyfrifoldeb ar y cyd ag aelodau eraill o'r tîm am gynnal a sicrhau asedau data.
- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd.

## Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Arweinydd Datblygu iSeries |
| **Adran:** | Gwasanaethau Technegol |

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod Ddymunol**

- Sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol a chyflwyno rhagorol, gyda'r gallu i esbonio deunydd cymhleth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd ar draws amrywiaeth o gyfryngau.
- Unigolyn sy'n gallu ysgogi ei hun a rheoli terfynau amser sy'n gwrthdaro yn annibynnol gan ymateb yn effeithiol i ofynion sy'n newid.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i ymdrin ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys ymgysylltu, trafod, dylanwadu ac ysgogi.
- Dadansoddol a threfnus, gyda'r gallu i gynhyrchu manylebau datblygu manwl a chlir ar gyfer datblygu a phrofi.

**Dymunol**

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n barod i ddysgu'r iaith.

## Gwybodaeth

**Hynod Ddymunol**

- Gwybodaeth hynod fedrus am un neu fwy o'r canlynol:
  - RPG
  - COBOL 400
- Gwybodaeth weithiol a dealltwriaeth dda o un neu fwy o'r canlynol:
  - Amgylchedd gweithredu AS400.
  - CL, DDS
  - Gwybodaeth am fethodolegau datblygu fel Agile
  - Transact-SQL

**Dymunol**

- Gwybodaeth am dechnolegau rheoli ffynonellau a'u rheolaeth.
- Dealltwriaeth sylfaenol o fframweithiau dyfarnu addysg y DU.

## Profiad

**Hynod Ddymunol**

- Gallu i gynhyrchu manylebau dylunio mewn perthynas â phrosesu data a phrofiad o wneud hynny.
- Profiad sylweddol o ddatblygu systemau mewn iaith gyfrifiadurol berthnasol (h.y. RPG Cobol, Java, .net ac ati), gan gynnwys cynhyrchu manylebau a phrofi teithiau defnyddwyr.
- Profiad dangosadwy o ddogfennu cronfeydd codau a moderneiddio hen godau i sicrhau cydnawsedd a gweithrediad yn y dyfodol.
- Profiad o ddylunio/cynnal cronfeydd data (gan ddefnyddio DB2, gweinydd Sql, ac ati).
- Profiad blaenorol o gynhyrchu llifoedd gwaith integreiddio ar gyfer rheoli rhyngddibyniaeth systemau.

**Dymunol:**

- Profiad o arwain a rheoli staff; dirprwyo gwaith, monitro perfformiad, darparu datblygiad proffesiynol i dîm a gofalu am y tîm yn fugeiliol.

## Hyfforddiant / Cymwysterau

**Hynod Ddymunol**

- Addysg hyd at safon gradd neu gymhwyster proffesiynol cywerth neu dystiolaeth o brofiad ar gyfer y rôl.

**Dymunol**

- Achrediad proffesiynol perthnasol (aelodaeth / achrediad BCS, achrediad FED-IP neu debyg).
- Ardystiad (neu'n gweithio tuag at ardystiad) mewn ITIL v4.

## Telerau ac Amodau Gwasanaeth / *Terms and Conditions of Service*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd /** *Job Title:* | **Arweinydd Datblygu iSeries /** *iSeries Development Lead* | | |
| **Cyflog /** *Salary:* | **£60,348 - £62,766 y flwyddyn (pro-rata lle y bo'n gymwys /** *£60,348 - £62,766 per annum (pro-rata where relevant)* | **Gradd /** *Grade:* | 13 |
| **Gwyliau Blynyddol /** *Annual Leave:* | **25 diwrnod (182.5 awr) y flwyddyn. Mae CBAC hefyd yn darparu 16 diwrnod (116.8 awr) i gyfrif am Wyliau Cyhoeddus a chyfnodau Cau CBAC (gwyliau ychwanegol). Mae'r lwfansau hyn yn cael eu haddasu ar gyfer staff sy'n gweithio'n rhan-amser neu batrymau gweithio cywasgedig.** *25 days (182.5 hours) per annum. WJEC also provides 16 days (116.8 hours) to account for Bank Holidays and WJEC Closure periods (Additional leave). These allowances are adjusted for staff who work part-time or compressed working patterns.* | | |
| **Pensiwn /** *Pension:* | **Mae gofynion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn berthnasol.** *The provision of the Local Government Pension Scheme (LGPS) applies.* | | |

### Math o Gytundeb / *Contract Type:*

| **Oriau Gwaith** / *Working Hours:* | | **Hyd y Contract** / *Length of Contract:* |
|---|---|---|
| ☒ **Llawn-amser** / *Full-time* | | ☒ **Parhaol** / *Permanent* |
| ☐ **Rhan-amser** / *Part-time* | | ☐ **Tymor penodol** / *Fixed-term* |
| **Nifer yr oriau'r wythnos /** *No. of hrs per week:* | 36.5 | **Dyddiad gorffen arfaethedig /** *Planned end date:* |
| | | **Rheswm dros y cyfnod penodol /** *Reason for fixed-term:* |

**Arall** / *Other:*

| | |
|---|---|
| **Cyfnodau prysur llwyth gwaith /** *Workload Peaks:* | **Gorffennaf – Awst yn flynyddol** *July – August annually* |

### Dull Ymgeisio / *Method of Application:*

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn **23:59, dydd Sul 11 Ionawr 2026.**
**Rhagwelir cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb, ar dydd Llun 26 Ionawr 2026.**

Completed forms should be sent by email to HR@wjec.co.uk by **23:59, Sunday 11 January 2026.**
**Interviews are anticipated to be held in person, on Monday 26 January 2026.**